# Stori'r pot jam



Oni bai bod Norm Conrad wedi gosod project ar gyfer Cystadleuaeth Diwrnod Hanes Cenedlaethol i'w ddisgyblion mae'n bur debyg na fyddai neb yn gwybod am Irena Sendler. Wrth wneud ymchwil ar gyfer y project daeth Elizabeth Cambers, Megan Stewart, Sabrina Coons a Janice Underwood ar draws erthygl yn yr *U.S. News and World Report* am Ms. Sendler, ac fe synnon nhw at nifer y plant yr oedd hi wedi eu hachub. Ar y dechrau roedden nhw'n meddwl mai gwall teipio ydoedd.

Yn 1942, pan oedd Iddewon ledled Ewrop yn cael eu casglu ynghyd a'u gyrru fel anifeiliaid i wersylloedd y Natsïaid gwnaeth Irena benderfyniad anhygoel.

Er nad oedd yn Iddewes, poenai am fywydau'r Iddewon o'i chwmpas, yn arbennig y plant. Fel pennaeth adran y plant o'r mudiad tanddaearol, Zegota, yng Ngwlad Pŵyl, doedd hi ddim yn gallu eistedd yn ôl a gwneud dim. Aeth i Geto Warsaw a pherswadio'r rhieni Iddewig i roi eu plant yn ei gofal hi. Cael eu cymryd oddi ar eu rhieni a'u cam-drin ac, o bosib, farw fyddai eu hanes os na chaent fynd i rywle diogel.

Smyglodd Irena y plant allan o'r Geto yn ei thryc, yn ei bocs offer, neu mewn sachau. Roedd ganddi hi gi gyda hi bob amser, a dysgodd y ci i gyfarth pan oedd yn mynd i mewn a dod allan o'r Geto. Byddai'r sŵn yn ddigon i gadw'r milwyr rhag archwilio'i thryc, ac yn cuddio unrhyw sŵn y byddai'r plant yn debygol o'i wneud, pe bydden nhw'n ofnus.

Unwaith yr oedden nhw allan o'r Geto, byddai Irena yn trefnu cartrefi diogel i'r plant. Cadwodd gofnod o bob plentyn a theulu y llwyddodd i'w helpu. Rhag ofn y byddai'r Almaenwyr yn dod i chwilio am ei chofnodion, cuddiodd nhw mewn pot jam a'i gladdu o dan goeden yn ei gardd gefn!

Llwyddodd Irena i smyglo 2,500 o blant allan o'r Geto, ac er iddi gael ei dal unwaith, ei chwestiynu a'i cham-drin, ni roddodd y gorau i helpu eraill.

Ar ôl y rhyfel, cloddiodd Irena am ei phot jam a cheisiodd ddarganfod teuluoedd yr holl blant yr oedd hi wedi eu helpu er mwyn iddyn nhw gael mynd yn ôl at ei gilydd unwaith eto.

Ysgrifennodd y merched ddrama yn seiliedig ar y stori hon dan y teitl 'Bywyd mewn Jar'a chael derbyniad anhygoel a cheisiadau am fwy a mwy o berfformiadau.

Gan gymryd yn ganiataol bod Irena wedi marw aethant i chwilio ble roedd wedi ei chladdu a chael eu synnu pan glywsant ei bod yn dal yn fyw – mewn tlodi yn Warsaw. Roedd hithau wrth ei bodd ac ysgrifennodd atyn nhw yn dweud, 'Mae eich perfformiad chi a'ch ymdrech yn parhau'r hyn ddechreuais i hanner canrif yn ôl'.

Penderfynodd y merched gasglu arian ar ran Ms Sendler trwy fynd â jar i bob perfformiad i gasglu cyfraniadau, a lledaenodd y stori fel tân gwyllt.

Diwedd y stori oedd iddyn nhw fynd i Warsaw ym mis Mai 2001 a chyfarfod â'r arwres anhygoel oedd bellach yn 91 oed!